| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Ysgrifennu Perswadiol - Twristiaeth Ddiwylliannol |
| Disgrifiad: | Creu taflen berswadiol i ymweld ag Abertawe neu Sir Gaerfyrddin Dylan (2 sesiwn) |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | Darllen<br>**Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth**<br>* Strategaethau Darllen<br>Bl3<br>• adnabod dibenion gwahanol testunau<br>• adnabod sut mae testunau'n cael eu trefnu<br>• dod o hyd i wybodaeth ar dudalennau gwe gan ddefnyddio nodweddion sgrin<br>Bl4<br>• llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth benodol gan ddefnyddio amryw o nodwedidon mewn testun<br>• adnabod sut mae testunau'n gwahaniaethu yn ôl eu pwrpas, eu strwythur a'u cynllun<br>• dod o hyd i wybodaeth a syniadau ar dudalennau gwe, gan ddefnyddio gwahanol ffyrdd o chwilio ac asesu pa ffyrdd yw'r rhai mwyaf effeithlon<br>Bl5<br>• llithr ddarllen (sganio) i ddod o hyd i fanylion penodol gan ddefnyddio trefnyddion graffig a thestunol<br>• adnabod nodweddion testunau<br>• defnyddio gwybodaeth o ffynonellau yr ymddiriedir ynddynt ar sgrin ac ar bapur, gan ddethol a lawrlwytho yn ôl yr angen<br>Bl6<br>• darllen yn fanwl, gan wneud nodiadau at ddibenion penodol<br>• chwilio ar y rhyngrwyd yn ofalus gan benderfynu pa ffynonellau i'w darllen a'u credu<br><br>Ysgrifennu<br>**Trefnu syniadau a gwybodaeth**<br>* Strwythur a threfn<br>Bl3<br>• defnyddio strwythur elfennol ar gyfer ysgrifennu<br>• defnyddio gwybodaeth weledol os yw'n berthnasol<br>Bl4<br>• defnyddio strwythur penodol wrth ysgrifennu<br>• defnyddio gwybodaeth weledol |

| | |
|---|---|
| | Bl5<br>• defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu<br>• defnyddio delweddau, graffiau a darluniau sy'n glir, yn berthnasol ac yn briodol<br>Bl6<br>• addasu strwythurau wrth ysgrifennu i gyd-destunau gwahanol<br>• defnyddio nodweddion a diwyg sydd weid'u llunio er mwyn cyflwyno data a syniadau'n glir |
| Testun Dylan Thomas | AMH. |
| Adnoddau sydd eu hangen: | • Enghreifftiau o daflenni perswadiol<br>• Nodiadau Post-it ac os dymunir, cefndir 'Wal Graffiti' ar gyfer IWB??<br>• www.rockandrollpoet.co.uk<br>• Templed taflen - ar bapur neu'n ddigidol (e.e. CA2 Uchaf - Word/Publisher a CA2 Isaf - 2Simple/Textease)<br>• Gellir golygu hyn Ysgol Meini Prawf |
| Trefn addysgu a awgrymir: | • Edrych ar enghreifftiau o ysgrifennu perswadiol (atyniadau lleol, digwyddiadau)<br>• Mewn grwpiau, mae'r dysgwyr yn trafod y nodweddion ac yn eu hysgrifennu ar nodiadau post-it. Dewch â syniadau pawb at ei gilydd fel dosbarth a chan ddefnyddio 'Wal Graffiti', gludiwch nodiadau post-it neu ysgrifennwch nodweddion i bawb eu gweld. Crynhowch brif nodweddion ysgrifennu perswadiol, e.e. ymadrodd/slogan bachog, yr amser presennol, gorchmynion ac ati<br>• Fel dosbarth crëwch gasgliad o Feini Prawf Llwyddiant cyraeddadwy.<br>• Ymchwiliwch i Abertawe a Sir Gaerfyrddin Dylan. http://www.rockandrollpoet.co.uk<br>• Y dysgwyr yn cynllunio eu taflen gan ddefnyddio eu meini prawf llwyddiant i'w helpu i gynnwys nodweddion perswadiol.<br>• Gall y dysgwyr gynhyrchu taflen naill ai yn eu llawysgrifen neu gan ddefnyddio'r rhaglenni cyfrifiadurol uchod.<br>• Gan ddefnyddio'r Ysgol Llwyddiant, gall y dysgwyr asesu eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion. |
| Gweithgareddau estyn: | • Creu jingl ar gyfer hysbyseb radio sy'n perswadio pobl i ymweld â Chymru Dylan.<br>• Sgriptio, perfformio a ffilmio hysbyseb deledu i berswadio pobl i ymweld. |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | |